

RHAGARWEINIAD

Mewn garddwriaeth, afalau a gellyg a olygir wrth y term “ffrwythau pen coed”. Adwaenir eirin, eirin duon etc fel ffrwythau carreg. Bu lleihad mewn cynhyrchu ffrwythau pen coed yn y blynyddoedd a fu, a gall prisiau cyfanwerthol fod yn isel. Fodd bynnag, mae marchnata uniongyrchol trwy siopau fferm, hel drosoch eich hun, a marchnadoedd ffermwyr yn cynnig marchnad neilltuol sylweddol ar gyfer y cnwd hwn. Mae marchnata uniongyrchol hefyd yn rhoi cyfle i'r tyfwr ddewis eitemau mwy amrywiol.

Yng Nghymru, rhwng canol Awst a'r Nadolig yw tymor cynhyrchu ffrwythau pen coed. Mae modd defnyddio technegau storio, megis storio oer a rheoli'r atmosffer, i estyn y tymor er mwyn marchnata trwy'r flwyddyn.

Mae cydweithio â chyflenwydd archfarchnadoedd yn ddewis amgen i farchnata uniongyrchol. Gall y dull hwn gynnig prisiau rhesymol hefyd, ac mae ganddo'r fantais o fod yn addas ar gyfer sympliau mawr. Mae angen i dyfwr sylweddoli bod archfarchnadoedd yn bartiolar iawn ynglŷn ag ansawdd eu nwyddau. Rhaid i'r cynnyrch fod yn ddilychwin ac wedi'i dyfu i safonau uchel.

Ar ben y marchnadoedd hyn ar gyfer cynnyrch crai, mae afalau a gellyg yn rhoi llawer o gyfleoedd o ran ychwanegu gwerth. Er enghraifft, gellir eu defnyddio fel deunydd llenwi mewn pasteiod cartref, fel cynhwysion mewn pwddinau, ar gyfer sudd ffres ac, o bosibl, seidr. Gellir cynhyrchu'r eitemau hyn ar y fferm, ac maent yn gofyn am gyfarpar sy'n amrywiol o tan soffistigeiddrwydd. Mae Vigo yn cynnig amrywiaeth o gyfarpar ar gyfer trin ffrwythau pen coed (info@vigold.com).

Mae perllannau yn gofyn am gryn dipyn o ymroddiad, felly mae angen bod yn ofalus iawn wrth eu cynllunio, er sicrhau eu bod yn llwyddo yn ystod oes o 12 mlynedd neu fwy.

Y SAFLE

Rhaid dewis hwn yn ofalus. Yn ddelfrydol, dylai fod yn llai na 150m yn uwch na lefel y môr, a dylai gynnig cysgod, yn enwedig rhag y prif wyntoedd. Os nad oes cysgod naturiol, byddwch yn barod i blannu lleiniau cysgodi ar yr un pryd â'r ffrwythau. Osgowch bocedi llwydrew lle mae'r oerfel yn draenio i lawr i fannau isel, er enghraifft, ar waelod llethrau.

Yn gyffredinol, mae gellyg yn fwy ffwdanus nag afalau, am eu bod yn blodeuo'n gynnar iawn yn y flwyddyn (ac felly'n agored i ddiodef niwed gan rew) – gallant flodeuo mor gynnar â diwedd Mawrth pan fydd tywydd y gwanwyn yn fwyn. Gellid dadlau fod gellyg yn gnwd ymylol yn unrhyw le yn y DU, felly dylech gadw hyn mewn cof.

Y PRIDD

Yn ddelfrydol, dylai pridd fod wedi'i ddraenio'n dda, o ansawdd heb fod yn drymach na lôm clai. Mae rhyw 450mm o ddyfnder yn gymorth. Os yw'r pridd yn draenio'n araf, ystyriwch osod system bibelli yn gynnar, gyda cherrig at y wyneb.

Mae dadansoddiadau pridd yn hanfodol, a dylech eu cynnal ar ddwy lefel: o 0-150mm a 150-300mm. Dylai'r paramedrau i'w hasesu gynnwys pH, ffosfforws (P), potasiwm (K) a magnesiwm (Mg). Os yw'r pH yn isel iawn (llai na 5.5), rhwch galch mewn dau ddog, gan aredig ar ôl y dogn cyntaf. Bydd gosod haen o isbridd yn gymorth i gymysgu'r calch a'i gael yn isel i mewn i'r pridd.

MATHAU

Mae'r marchnadoedd ar gyfer ffrwythau pen coed yn geidwadol, a'r rhan fwyaf o'r galw yn y DU am Gocsys, Pipin Oren ac afalau coginio Bramley. Fodd bynnag, os ydych yn rhagweld y byddwch yn cynhyrchu suddion neu gynhyrchion eraill i ychwanegu gwerth, gallech ddefnyddio amryw o fathau.

Mewn ardaloedd mwy llaeth (rhan helaeth o Gymru!) dewiswch fathau sy'n fwy gwydn rhag y frech. Mae Cocsys yn eithaf anodd o ran dewis safle, ac nid ydynt yn gwrthsefyll clefydau yn dda. Mae'r Red Falstaff yn gnwd defnyddiol sy'n gallu gwrthsefyll clefydau, ac felly hefyd yr Egremont Russet. Cyn dewis eich cnwd, mae'n syniad da cynnal gwerthusiad arall o'r galw o du'r farchnad ac o nodweddion



Cocsys pipen oren

lleoliad arfaethedig y cnwd. Yn aml, gall math lleol ddwyn cynnyrch derbyniol.

Ar hyn o bryd, ceir llawer o ddiddordeb mewn mathau mwy anarferol o afalau, mae dewisiadau modern poblogaidd yn cynnwys Braeburn a Pink Lady.

O ran gelyg, y Conference yw'r prif fath, a'r Concord yn un defnyddiol newydd.

GWREIDDGYFFION

Yn anaml y cynhyrchir afalau ar eu gwreiddiau eu hunain; Fel rheol, cânt eu himpio ar wreiddgyff. Mae'r gwreiddgyffion hyn yn rhoi nodweddion i'r goeden o ran maint, pa mor gynnar y byddant yn dwyn ffrwyth, etc. Mae'r math o ben, neu impyn, hefyd yn dylanwadu ar y nodweddion hyn, felly po fwyaf egniol y brigyn impiedig, mwyaf lleihaol y mae angen i'r gwreiddgyff fod.

Unwaith eto, bydd ansawdd y tir yn ddylanwadol; gorau'r tir, po fwyaf y bydd y goeden yn tyfu.

Felly, er enghraifft, bydd Bramley sy'n driplid egniol ar dir da yn dal i gynhyrchu coeden fawr ar wreiddgyff lleihaol, megis M IX; tra byddai math gwan megis Melyn Melys yn cynhyrchu coeden fach iawn ar wreiddgyff mwy, megis MM106. Fel arfer, mae'n syniad da defnyddio gwreiddgyff mor lleihaol ag sydd bosibl, am fod y rhain yn dwyn ffrwyth yn gynharach. Defnyddiwch wreiddgyffion cryfach ar safleoedd ffiniol. Mae M26 yn gyfaddawd da.

Yn anaml y mae perllannau math sengl yn bosibl, am fod angen peillyddion ar gymhareb o un peillydd i bob pedair o goed cnwd. Mae trefniant â gwenynwr lleol yn fuddiol, yn Ebrill a Mai, gydag o leiaf 3 chwch llawn ar gyfer pob hectar.

Fel rheol, caiff gelyg eu himpio ar wreiddgyff Cwinsen C sy'n cael effaith led-leihaol.

Cewch goed oddi wrth fridwyr arbenigol, megis Matthews enquiries@fpmatthews.co.uk neu Adams Apples 01404 823185, ac efallai y bydd angen eu harchebu os ydych am ddewisiadau mwy anarferol.

PLANNU

Mae hyn yn digwydd rhwng Tachwedd a Mawrth mewn amodau sych. Mewn perllannau bach, gellir plannu â llaw – tîm dau berson sydd orau. Ar raddfa fwy, gellir defnyddio terydr pyst neu gloddwyr bach. Mae'n bwysig plannu ar ddyfnder planhigfa ac nid yn ddyfnach, neu bydd y brigyn impiedig yn gwreiddio a gellir colli rheolaeth ar y goeden.

BYLCHU

Mae hyn yn dibynnu ar y math o goeden sydd i'w thyfu. Mae perllannau modern yn tueddu i fod â boncyff canolog lle tyfir y goeden fel cyff fertigol canolog gyda changhennau i'w tocio ar lefel isel, fel rheol ar gor-wreiddgyffion. Mae'r coed hyn yn mynd i mewn ar 3m x 3m, a choed safonol ar 5m x 3m. Fel rheol, coed gwryfol a blennir, a cheir y siâp sydd ei eisiau trwy eu loppio. Mae ar y rhan fwyaf o goed angen 1 medr o bostyn allan o'r tir yn achos rhai safonol, neu 2m yn achos boncyffion canolog.

SYSTEM

Yng Nghymru, lle gall amodau fod yn llaeth, bydd ale laswelltog yn cadw'r berllan yn fwy sych, gyda sribyn o chwynladdwr neu o wellt dan y coed. Fodd bynnag, gall system ddyfrio diferol hefyd fod yn gymorth er mwyn cadw cynnyrch ac ansawdd yn ystod cyfnodau sych. Ceir cymysgiadau o laswellt ar gyfer perllannau – er nad ydynt yn tyfu'n dal iawn, mae angen eu torri i raddau.

RHEOLI PLA, CLEFYD A CHWYN

Maes cymhleth yw hwn, a'r tu allan i faes y daflen hon; dylech bob amser geisio cyngor proffesiynol os oes gennych broblem. Y frech, llwydni powdraidd a chancr yw'r clefydau gwaethaf, tra bydd pryfed gleision, gwiddon a lindys yn ymosod ar ffrwythau a dail. Mae angen system Integredig ar gyfer Rheoli Pla er mwyn annog buddion gan reoli hefyd ar broblemau a allai anffurfio'r cnwd. Mae cynhyrchu eitemau sy'n ychwanegu gwerth yn fodd i ddefnyddio cynnyrch israddol.



Gellygen Conference



Ale o laswellt rhwng rhesi